# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Mai 2024

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid

## Cyfarfod cyhoeddus

(09.00 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(09.00 - 09.05)

## 3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(09.05 - 09.10)

### 3.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol: Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, 30 Ebrill 2024

LJC(6)-14-24 - Papur 2 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant, 30 Ebrill 2024

**3.2 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Symud Nwyddau (Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr) (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Darpariaeth Ddarfodol a Diwygiadau Amrywiol) 2024**

(Tudalennau 3 - 4)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 3 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2024

**3.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar: Rheoliadau Honiadau Iechyd (Dirymu) 2024**

(Tudalennau 5 - 6)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 4 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar, 1 Mai 2024

## 4 Papurau i'w nodi

(09.10 - 09.15)

**4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion**

(Tudalennau 7 - 13)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 5 - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

**4.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at Brif Weinidog Cymru: Gwaith craffu blynyddol**

(Tudalennau 14 - 15)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 6 - Gohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at Brif Weinidog Cymru, 30 Ebrill 2024

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09.15)

## Preifat

(09.15 - 10.40)

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharor

(09.15 - 09.25)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol

(09.25 - 09.35) (Tudalennau 16 - 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 7 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-14-24 - Papur 8 - Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Droseddu, Plismona a Thân, 29 Ebrill 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-14-24 - Papur 9 - Llythyr at Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, 19 Mawrth 2024

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

(09.35 - 09.55) (Tudalennau 28 - 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 10 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-14-24 - Papur 11 - Llythyr at Brif Weinidog Cymru, 15 Mawrth 2024

LJC(6)-14-24 - Papur 12 - Llythyr at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, 15 Mawrth 2024

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) Adroddiad drafft

(09.55 - 10.10) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 13 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-2025: Gohebiaeth drafft at y Pwyllgor Cyllid

(10.10 - 10.20) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 14 - Llythyr drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Cytundebau Rhyngwladol

(10.20 - 10.30) (Tudalennau 48 - 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 15 - Briff Ymchwil [Saesneg yn unig]

## 12 Blaenraglen waith

(10.30 - 10.40) (Tudalennau 60 - 71)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-24 - Papur 16 - Blaenraglen waith [Saesneg yn unig]

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Sarah Murphy AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

30 Ebrill 2024

Annwyl Sarah

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n rhoi gwybod ichi y caiff cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo ei gynnal ddydd Mawrth 7 Mai o 3pm i 4:15pm. Cynhelir y cyfarfod yn rhithiol a chaiff ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Cytunwyd y bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar Fil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU, gwasgaru ceiswyr lloches, a'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y cap ar lwybrau mudo diogel a chyfreithlon. Dilynir hyn gan drafodaeth ar y diwygiadau diweddar o ran mudo net.

Yn unol â'r cytundeb, caiff hysbysiad ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod, a rhoddaf wybod ichi am hyn maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sarah Murphy AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

30 Ebrill 2024

Annwyl Sarah

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, hoffwn eich hysbysu am gyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant, a gynhelir yn rhithiol ar 02 Fai 2024.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU. Bydd y cyfarfod yn debygol o ymdrin â gweledigaeth Sector y Diwydiannau Creadigol, digwyddiadau diwylliannol arfaethedig a materion cyfredol yn y sector creadigol a diwylliannol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa’r Cabinet, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS Llywydd a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/HIDCC/5032/24

Sarah Murphy AS
Cadeirydd, Pwyllgor, Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

30 Ebrill 2024

Annwyl Sarah,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Symud Nwyddau (Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr) (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Darpariaeth Ddarfodol a Diwygiadau Amrywiol) 2024 ('Rheoliadau 2024').

Rydym wedi cael llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, a Materion Morol a Gwledig, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn rhychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21(a) o Atodlen 7 iddi

Pwrpas Rheoliadau 2024 yw cadw a miniogi buddion mynediad dilyffethair i'r farchnad ar gyfer nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon drwy gymhwyso cyfundrefn rheolaethau iechydol a ffytoiechydol ("SPS") i nwyddau anghymwys sy'n dod i Brydain Fawr o Ogledd Iwerddon, fel y'i cymhwysir i nwyddau yr Undeb Ewropeaidd / Ardal Economaidd Ewropeaidd o dan y Cyfnod Graddoli Trosiannol. Mae Rheoliadau 2024 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r diffiniad o nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon y cyfeirir ato yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'r Rheoliadau yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Paul Davies AS, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 3.3

**Jayne Bryant AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar**
**Minister for Mental Health & Early Years**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-JB-5117-24

Sarah Murphy AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

1 Mai 2024

Annwyl Sarah,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor am fwriad Gweinidogion Cymru i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod y Rheoliadau Honiadau Iechyd (Dirymu) 2024 (y Rheoliadau). Gwneir y Rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Adran 14 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) (Dirymu a Diwygio) ("Deddf REUL").

Bydd y Rheoliadau'n dirymu deddfwriaeth y nodwyd ei bod yn ddiangen ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, na chafodd ei chynnwys yn Atodlen 1 i Ddeddf REUL. Ni fydd dirymu'r offerynnau hyn yn cael unrhyw effaith ar bolisi yng Nghymru a bydd yn lleihau cymhlethdod diangen yn y llyfr statud.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod deddfwriaeth ddiangen yn cael ei dirymu'n gyfartal ar draws y gwledydd yr oedd yn berthnasol iddynt.

Bydd y Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU ym mis Mehefin 2024.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu yn yr un modd at Russell George MS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar
Minister for Mental Health & Early Years

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (RHIF 3)**

**Y BIL DIODDEFWYR A CHARCHARORION**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29.2 yn ei gwneud yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Dioddefwyr a Charcharorion ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Mawrth 2023. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 19 Mai 2023 a gellir dod o hyd iddo yn MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL (senedd.cymru). Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 15 Ebrill 2024 a gellir dod o hyd iddo yn MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL Y BIL DIODDEFWYR A CHARCHARORION (RHIF 2) (senedd.cymru).

3. Ar 9 Ebrill ac 16 Ebrill, cyflwynodd Llywodraeth y DU ragor o welliannau i'r Bil. Mae rhai o'r gwelliannau hyn yn sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fel a nodir yn RhS 29.2, ac ystyrir y rhain yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn.

4. Mae dau gymal newydd wedi'u hychwanegu at y Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar ddyletswydd i awdurdodau cyhoeddus penodedig gydweithredu â'r Comisiynydd Dioddefwyr ac ar ofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi a gweithredu strategaeth ar gyfer hyfforddiant mandadol i'w ddarparu i'r rhai a chanddynt rwymedigaethau o dan y Cod Dioddefwyr, o ganlyniad i welliannau llwyddiannus gan y gwrthbleidiau (gwelliannau 57 a 58 yn y drefn honno).

5. Mae fy swyddogion wedi trafod y gwelliannau hyn â chydweithwyr yn Llywodraeth y DU, ac rwyf yn deall bod Llywodraeth y DU yn parhau i ystyried ei safbwynt ar y ddau ohonynt. O ystyried y posibilrwydd gwirioneddol o welliannau gan y llywodraeth yn y dyfodol mewn perthynas â'r cymalau hyn, nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn ystyried y cymalau newydd a grëwyd gan welliannau 57 a 58. Byddaf yn mynd i'r afael â'r cymalau hyn pan fydd Llywodraeth y DU wedi penderfynu ar ei safbwynt ac unrhyw welliannau gan y llywodraeth mewn perthynas â'r cymalau wedi'u cyflwyno.

6. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyhoeddwyd ar 25 Mawrth 2024, sydd i'w weld yn: Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion (parliament.uk)

**Yr amcan(ion) polisi**

7. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw cyflawni tri ymrwymiad maniffesto allweddol; pasio a gweithredu Cod Dioddefwyr yn gyfraith, diwygio'r system barôl, a sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol i gefnogi dioddefwyr digwyddiad mawr. Yn ogystal, mae'r Bil yn ceisio cyflwyno newidiadau sy'n ceisio cryfhau gweithrediad y Bwrdd Parôl a sicrhau hyder y cyhoedd yn y system. Bydd y Bil yn gwahardd carcharorion sy'n gwasanaethu gorchymyn oes gyfan rhag priodi neu ymgymryd â phartneriaeth sifil tra byddant yn y carchar; yn ceisio codeiddio canllawiau ar gyfer rolau sy'n cefnogi dioddefwyr ac yn sefydlu corff i weinyddu'r cynllun iawndal ar gyfer dioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig.

**Crynodeb o'r Bil**

8. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

9. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dioddefwyr ymddygiad troseddol ac eraill y mae ymddygiad troseddol yn effeithio arnynt; penodi a swyddogaethau unigolion i weithredu fel eiriolwyr dros ddioddefwyr digwyddiadau mawr; diwygiadau i'r system barôl; aelodaeth a swyddogaethau'r Bwrdd Parôl; gwahardd rhai carcharorion rhag ffurfio priodas neu bartneriaeth sifil; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Newidiadau i'r Bil ers gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) sy'n sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.**

*Rhan 1 - Cymalau 1 i 4, 11, 26 a 27 – Victims' Code*

10. Gwnaeth Llywodraeth y DU sawl gwelliant i Gymalau 2 i 11, sy'n ymwneud â'r Cod Dioddefwyr, yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Dyma'r gwelliannau perthnasol at ddibenion y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn:
    a. Egluro bod y Cod Dioddefwyr a ddyroddir o dan Gymal 2 wedi ei gyfeirio at bersonau sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus sy'n ymwneud â dioddefwyr neu unrhyw agwedd ar y system cyfiawnder troseddol.
    b. Egluro'r egwyddorion y mae rhaid i'r Cod Dioddefwyr fod yn seiliedig arnynt.
    c. Ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth ystyried a ddylid gwneud darpariaeth wahanol yn y Cod Dioddefwyr i ddioddefwyr o wahanol ddisgrifiadau, roi sylw i anghenion penodol dioddefwyr sydd o dan 18 oed neu a chanddynt nodweddion gwarchodedig.
    d. Ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion a Gweinidogion Cymru wrth baratoi neu ddiwygio'r Cod Dioddefwyr.
    e. Ei gwneud yn ofynnol i bersonau penodedig yn y Cod Dioddefwyr ddarparu gwasanaethau yn unol ag ef, oni bai bod ganddynt resymau da dros beidio â gwneud hynny, a chael gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion.

f. Rhoi cyfeiriadau at "under-18s" yn lle'r cyfeiriadau at "children" (roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol yn nodi mewn perthynas â Chymal 11 bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol ond y dylai unrhyw benderfyniad ynghylch cydsyniad adlewyrchu'r penderfyniad ar gyfer Cymalau 1, 2 a 3).
g. Ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion cyn dyroddi canllawiau o dan Gymal 11 o'r Bil ar godi ymwybyddiaeth o'r Cod Dioddefwyr ac adolygu cydymffurfiaeth ag ef.

11. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mae cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y cymalau hyn ar y sail bod gwasanaethau diogelu, cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr yn feysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

*Rhan 1 - Cymal 15 – Victims of criminal conduct: Guidance about specified victim support roles*

12. Gosododd Llywodraeth y DU welliannau i Gymal 15 yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi i egluro ystyr "children" at ddibenion canllawiau a ddyroddir o dan Gymal 15 ac i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch canllawiau sydd i'w dyroddi o dan Gymal 15, i'r graddau y maent yn ymwneud â mater y byddai darpariaeth amdano o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

13. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mae cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y cymal hwn ar y sail ei fod yn gwneud darpariaeth o ran lles a diogelu, sy'n faterion datganoledig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i Awdurdodau Cymreig Datganoledig a chanddynt swyddogaethau perthnasol roi sylw i ganllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol. O'r herwydd mae'r darpariaethau hyn yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

*Rhan 2 - Cymalau 28 a 30 a chymal adolygu newydd - Victims of major incidents:*

14. Gosododd Llywodraeth y DU welliannau i Gymalau 28 a 30 o'r Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn datgan bod digwyddiad sy'n digwydd yng Nghymru yn ddigwyddiad mawr mewn perthynas â'r gofyniad i benodi eiriolwr a chyn penodi eiriolwr mewn perthynas â digwyddiad mawr sy'n digwydd yng Nghymru.

15. Mae gwelliant pellach, ar ôl Cymal 39, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu gweithrediad Rhan 2 o'r Bil yn y cyfnod o 18 mis yn dilyn y tro cyntaf i eiriolwr gael ei benodi o dan Gymal 30. Gallai'r Senedd wneud darpariaeth debyg sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion

Cymru wneud hyn mewn perthynas ag eiriolwr dros ddioddefwyr yng Nghymru.

16. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mae cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y cymalau hyn ar y sail eu bod yn ymwneud â maes datganoledig darparu gwasanaethau cymorth, cyfeirio, eirioli a lledaenu gwybodaeth. Maent hefyd yn gosod gofynion adrodd ac adolygu ar eiriolwr dros dioddefwyr digwyddiadau mawr ac ar yr Ysgrifennydd Gwladol, a allai gael eu hefelychu ar gyfer Cymru mewn Deddf gan y Senedd.

*Rhan 3 a'r Atodlen – Infected Blood Compensation Authority*

17. Gosododd Llywodraeth y DU welliannau i Ran 3 o'r Bil a'r Atodlen iddo, a fyddai'n disodli'r Cymal 40 presennol ac yn mewnosod cyfres o gymalau newydd. Diben y cymalau newydd yw gwneud darpariaeth am sefydlu corff hyd braich, yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA), i weinyddu cynllun iawndal gwaed heintiedig, yn ogystal â gwneud taliadau interim.

18. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau i sefydlu cynllun iawndal gwaed heintiedig ar gyfer gwneud taliadau i bersonau cymwys. Gall y rheoliadau gynnwys materion fel personau cymwys, taliadau, gweithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau ac adolygiadau ac apelau.

19. Mae hefyd yn ofynnol i Lywodraeth y DU wneud taliadau interim o £100,000 i ystadau pobl sydd wedi eu heintio gan gynhyrchion gwaed halogedig sydd wedi marw, ac a oedd wedi cofrestru â'r Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig, neu gynlluniau a oedd yn eu rhagflaenu, pan na fo taliad interim wedi ei wneud eisoes.

20. Mae'r cymalau hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â dyletswydd personau perthnasol (rhestredig) i gydweithredu â'r IBCA, a phŵer i Lywodraeth y DU wneud trefniadau ar gyfer darparu cyngor a chymorth i ymgeiswyr o dan y cynllun.

21. Mae’r gwelliannau yn cynnwys Atodlen ac ynddi ragor o fanylion ynghylch cyfansoddiad yr IBCA, pŵer i Lywodraeth y DU i wneud cynlluniau trosglwyddo gyda phersonau perthnasol at ddiben trosglwyddo i’r IBCA unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau person perthnasol (sy’n cynnwys Gweinidogion Cymru a rhai cyrff GIG yng Nghymru) a ystyrir yn briodol ganddynt at ddibenion galluogi’r IBCA i gyflawni ei swyddogaethau, yn ogystal â thriniaeth dreth y cynlluniau hynny. Mae rhan olaf yr Atodlen yn ymwneud â diwygiadau canlyniadol ac yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru i wneud diwygiadau canlyniadol drwy reoliadau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

22. Mae'r dadansoddiad cymhwysedd deddfwriaethol wedi ystyried i ba raddau y gellid sefydlu corff iawndal Cymreig mewn perthynas â Chymru. Felly, nid yw'n ystyried yn uniongyrchol Gymal 40 o'r Bil sy'n sefydlu corff ar sail pedair gwlad gan y byddai hyn y tu hwnt i gymhwysedd; fel arall, mae'n ystyried darpariaeth a allai gael yr un effaith i raddau helaeth yng Nghymru, hy un sy'n sefydlu corff iawndal Cymreig.

23. Mae Rhan 3 o'r Bil a'r Atodlen iddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac eithrio paragraff 21 o'r Atodlen sy'n ymwneud â thriniaeth dreth cynlluniau trosglwyddo. Mae'r cynllun cymorth *ex-gratia* yng Nghymru yn cael ei redeg gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) ac fe'i sefydlwyd gan ddefnyddio pwerau iechyd Gweinidogion Cymru a geir yn Neddf GIG (Cymru) 2006.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

24. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y gwelliannau a gyflwynwyd mewn perthynas â Chymalau 15, 28, 30 ac i Ran 3 o'r Bil a'r Atodlen iddo.

25. Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y gwelliannau a gyflwynwyd mewn perthynas â Chymalau 1-4, 11, 26 a 27.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil yn dilyn y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi - gwelliannau yr wyf yn argymell bod y Senedd <u>yn</u> rhoi cydsyniad iddynt.**

*Rhan 3 a'r Atodlen – Infected Blood Compensation Authority*

26. Rydym o blaid estyn y darpariaethau hyn i Gymru a'u cymhwyso yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y budd a'r pwysigrwydd o ran symud ymlaen â'r cymalau hyn felly bydd y darpariaethau yn gymwys ar yr un pryd ledled y DU i sicrhau bod y rhai sydd wedi derbyn cynhyrchion gwaed heintiedig yn cael iawndal. Ffefrir dull pedair gwlad i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfartal. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig eraill i baratoi'r cymalau.

27. Fel rhan o'r gwaith mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys dau ofyniad cydsyniad statudol. Mae hyn yn golygu bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidog Swyddfa'r Cabinet ychwanegu unrhyw gyrff datganoledig newydd at y rhestr o gyrff y mae'n ofynnol iddynt gydweithredu â'r IBCA (yr hyn a fyddai'n gyfystyr â Chymal 46 o'r Bil) ac mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall Llywodraeth y DU wneud unrhyw gynlluniau trosglwyddo sy'n trosglwyddo unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru/Awdurdodau Iechyd Arbennig a ystyrir yn briodol at ddibenion galluogi'r IBCA i gyflawni ei swyddogaethau (paragraff

20 o'r Atodlen). Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod trosglwyddiadau o'r fath yn angenrheidiol i sicrhau bod yr IBCA yn gallu gweithredu, bydd y gofynion yn sicrhau bod rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru er mwyn i unrhyw drosglwyddiadau o'r fath ddigwydd.

28. Felly, rydym yn cefnogi cynnwys y gwelliannau yn y Bil ac yn argymell cydsynio i'r darpariaethau.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil yn dilyn y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi - gwelliannau yr wyf yn argymell nad yw'r Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt**

*Rhan 1 - Cymalau 1 i 4, 11, 26 a 27 – Victims' Code*

29. Er ein bod yn cefnogi bwriad y polisi o ddod â'r Cod Dioddefwyr yn gyfraith, mae problemau cyfansoddiadol eithriadol â'r cymalau diwygiedig.

30. Byddai'r gwelliannau bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn y broses o wneud neu ddiwygio'r Cod Dioddefwyr. Fel y nodwyd yn flaenorol, ni allai'r Senedd efelychu darpariaethau'r Cod Dioddefwyr yn llwyr ond, o ystyried yr effaith ar fater pwnc datganoledig, mae'n hanfodol o hyd y gellir cydnabod egwyddorion datganoledig yn briodol.

*Rhan 1 - Cymal 15 – Victims of criminal conduct: Guidance about specified victim support roles*

31. Nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r cymalau yn datrys y materion a godwyd yn flaenorol yn llwyr. Er ein bod yn cefnogi bwriad y polisi o ddarparu arweiniad cliriach ar rolau cymorth i ddioddefwyr VAWDASV ac ymddygiad troseddol yn ehangach, mae problemau cyfansoddiadol sylweddol â'r cymal diwygiedig.

32. Mae'r gwelliannau yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol bellach ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch canllawiau i'w dyroddi o dan Gymal 15, i'r graddau y maent yn ymwneud â mater y byddai darpariaeth amdano o fewn cymhwysedd y Senedd. Er hynny, rydym yn parhau i fod o'r farn na fyddai'n briodol i'r pwerau hyn gael eu harfer dim ond gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru.

*Rhan 2 - Cymalau 28 a 30 a chymal adolygu newydd - Victims of major incidents:*

33. Mae'r gwelliannau a wnaed i Gymalau 28 a 30 yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn datgan digwyddiad mawr yng Nghymru a chyn penodi eiriolwr dros ddioddefwyr digwyddiad mawr o'r fath. Mae hefyd gymal newydd i ddarparu ar gyfer adolygiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o weithrediad yr eiriolwr.

34. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau hyn yn datrys y materion a godwyd yn flaenorol yn llwyr. Nid yw Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i gydsyniad Gweinidogion Cymru fod yn ofynnol wrth ddatgan digwyddiad mawr yng Nghymru ac wrth benodi a defnyddio eiriolwr dros ddioddefwyr digwyddiad mawr yng Nghymru. Mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ddeddfu ar gyfer eiriolwr dros ddioddefwyr yng Nghymru, ac rydym hefyd yn credu y byddai Gweinidogion Cymru, er gwaethaf y ddeddfwriaeth hon, yn gallu penodi eiriolwr anstatudol yn dilyn digwyddiad yng Nghymru o dan y pwerau presennol. Mae Llywodraeth Cymru felly yn credu bod methu â chynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i benodi eiriolwr yn y Bil yn golygu na ddylai'r Senedd roi cydsyniad i'r darpariaethau hyn.

**Goblygiadau ariannol**

35. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol ond ni fydd hyn yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil.

**Casgliad**

36. Mae Rhan 3 o'r Bil i'w groesawu ac mae'n cyd-fynd â'n polisïau. Rwyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Rhan hon o'r Bil, fel a restrir ym mharagraffau 26-28.

37. Fodd bynnag, rwy'n argymell bod y Senedd yn gwrthod rhoi ei chydsyniad mewn perthynas â'r gwelliannau a'r darpariaethau a restrir ym mharagraffau 29-34.

38. Rydym yn parhau i drafod y cymalau hyn â Llywodraeth y DU, ac yn parhau i fod yn obeithiol ynghylch y posibilrwydd o gyfaddawd ar y cymalau hyn sy'n parchu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Lesley Griffiths AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

30 Ebrill 2024

## Gwaith craffu blynyddol

Annwyl Vaughan,

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i'ch llongyfarch chi ar eich penodiad diweddar i rôl y Prif Weinidog.

Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, bod cylch gwaith cysylltiadau rhyngwladol y Pwyllgor yn cynnwys craffu ar weithgarwch rhyngwladol Llywodraeth Cymru a sut y caiff ei adnoddau.

Fel Pwyllgor, edrychwn ymlaen yn eiddgar at gyrraedd nifer o gerrig milltir allweddol yn yr amser sy'n weddill cyn diwedd y Chweched Senedd, gan gynnwys yr adolygiad gweithredu o Gytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE, adnewyddu Iwerddon-Cymru: Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025, ac adnewyddu meddal Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellwyd gan y cyn-Brif Weinidog.

Byddem yn croesawu'r cyfle i archwilio'r rhain, yn ogystal â materion rhyngwladol amserol eraill gyda chi yn ein sesiwn graffu flynyddol ar 19 Mehefin 2024.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi yn eich rôl newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi wrth ar gysylltiadau rhyngwladol yn ystod gweddill tymor y Senedd hon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, er gwybodaeth.

Yn gywir,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Home Office

**Rt Hon Chris Philp MP**
**Minister of State for Crime, Policing and Fire**

2 Marsham Street
London SW1P 4DF
**www.gov.uk/home-office**

Huw Irranca-Davies MS
Welsh Government
5th Floor, Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

DECS Reference: MIN/1113079/24

29 April 2024

Dear Huw,

Thank you for your letter of 19 March to the Home Secretary following the Legislation, Justice and Constitution committee considering a joint letter from homelessness charities in Wales about their concerns on the nuisance rough sleeping measures in the Criminal Justice Bill. I am replying as the Minister of State for Crime, Policing and Fire and I am sorry for the delay in responding to your letter.

The UK Government agrees nobody should be criminalised for simply being destitute or sleeping rough. That is why we are committed to bringing into force the repeal of the outdated Vagrancy Act 1824. We have made the unprecedented commitment to end rough sleeping within this Parliament and have embarked on a strategy to shift the focus to prevention and move vulnerable individuals into multi-agency support. I know the Welsh Government shares this aim and have produced the Ending Homelessness Action Plan 2021-2026 and Home Office officials continue to engage closely with officials from the Welsh Government on these measures.

Rough sleeping is a complex issue requiring a multi-agency approach with appropriate wrap around support required to help address the complex vulnerabilities people sleeping rough can have. As such, the relevant provisions in the Criminal Justice Bill will be supported by guidance highlighting that local authority outreach and engagement remain as the first step in getting people away from sleeping on the streets. These tools support a staggered, multi-agency approach to enforcement where that is necessary, as per the principles set out in the joint National Police Chiefs' Council and Crisis guidance at: https://www.crisis.org.uk/media/245310/from-enforcement-to-ending-homelessness-full-guide.pdf.

There is already a lot of good practice between local authorities, police and other partners in addressing begging and rough sleeping in both England and Wales that can be built on. However, we also recognise that everyone has the right to go about their business without being unduly impeded and that communities have the right to feel safe.

Some instances of rough sleeping are linked to nuisance behaviours such as causing damage, disruption and distress. Where these anti-social behaviours occur, we must consider the rights of other members of the community and ensure local authorities and the police are able to appropriately intervene to address the issue, prevent or stop the nuisance caused and can also help direct the individual, where appropriate, into relevant

support services.  Local authorities and police have told us that where a person refuses appropriate offers of support that enforcement can encourage people into accepting the help available.

We continue to look at ways to improve the drafting of these provisions, to ensure that they are tightly and narrowly drawn and to be clear that engagement and support is first and criminal sanctions are a final resort.

I do hope this provides some reassurance that our intention has never been to criminalise rough sleeping and we remain committed to ensuring these provisions are properly targeted and can both protect the public and help direct rough sleepers into relevant support.

Yours sincerely,

**Rt Hon Chris Philp MP**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**—**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus James Cleverly AS
Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref

19 Mawrth 2024

Annwyl James

Y Bil Cyfiawnder Troseddol

Yn ein cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mawrth 2024, gwnaethom drafod llythyr ar y cyd gan elusennau digartrefedd a sefydliadau tai sy'n gweithredu yng Nghymru mewn perthynas â'r Bil Cyfiawnder Troseddol. Mynegodd y sefydliadau hynny eu pryderon – a ddisgrifiwyd ganddynt fel pryderon difrifol – o ran cymalau'r Bil ar gardota niwsans a chysgu allan sy'n achosi niwsans.

Rydym yn nodi o Nodiadau Eglurhaol y Bil eich bod yn ystyried bod proses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn ymwneud â nifer o'i chymalau, gan gynnwys cymalau 38 i 47, 51 i 60, 63 a 64 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â chardota niwsans a chysgu allan sy'n achosi niwsans.

Oherwydd difrifoldeb y pryderon a godwyd gyda ni, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r pwyntiau penodol a godwyd gan y sefydliadau, gan gynnwys y canlynol:

- bod y mesurau'n 'dad-ddynoli' ac na allent fod ymhellach o'r cyfeiriad cyffredinol yng Nghymru, fel yr amlinellwyd yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar ddigartrefedd a'r Papur Gwyn ar roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru;
- nad yw dirwyo neu symud pobl ymlaen nad oes ganddynt unrhyw le i fynd yn datrys digartrefedd; a
- y bydd y cymalau'n achosi pobl sy'n cysgu allan i gael eu dadleoli i ardaloedd llai diogel ac y bydd yn effeithio ar yr ymddiriedaeth rhwng pobl sy'n cael eu gorfodi i gysgu ar y strydoedd a'r sefydliadau a'r awdurdodau a all roi cymorth iddynt.

A fyddech cystal ag ymateb i'r llythyr hwn erbyn dydd Mercher 10 Ebrill 2024.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

15 Mawrth 2024

Annwyl Mark

**Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2024, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 11 Mawrth, yn ymateb i'n hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (adroddiad ar Femorandwm Rhif 3). Rydym yn croesawu'r ymatebion yr ydych wedi'u darparu i'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3.

Bydd y llythyr hwn yn eich cyrraedd ychydig cyn eich ymddiswyddiad arfaethedig fel Prif Weinidog Cymru. Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch ichi am eich ymgysylltiad â'r Pwyllgor mewn perthynas â'r materion arwyddocaol a phwysig sy'n dod o fewn ein priod gyfrifoldebau.

Mae eich llythyr yn codi nifer o faterion y byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o eglurder a manylion yn eu cylch. O'r herwydd, edrychwn ymlaen at gael ymateb gan eich olynydd i'r cwestiynau yn yr Atodiad cyn gynted â phosibl ac mewn da bryd i'n cynorthwyo i ystyried unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach ar gyfer y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Atodiad

Cwestiwn 1. O ran cydsyniad deddfwriaethol, hyd yma rydym wedi bod â safbwyntiau gwrthgyferbyniol ynghylch a yw diben cymalau 74 a 78 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd) sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r graddau y mae'r cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes. Gwnaethoch nodi hefyd:

> *"Yn wir, ar 6 Chwefror ysgrifennodd Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am eu dadansoddiad eu hunain o ran datganoli ar y Rhan hon o'r Bil. Yn flaenorol, roeddent o'r farn bod darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil wedi'u cadw'n ôl o dan y mater a gedwir yn ôl ar gyfer gwasanaethau rhyngrwyd, ac felly nad oedd angen cydsyniad y Senedd. Roedd ei llythyr yn nodi y dylid ceisio cydsyniad dan Ganllawiau ar Ddatganoli Cymru wrth gyflwyno neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. Ychwanegodd, o ganlyniad, er bod Llywodraeth y DU yn credu bod y swyddogaethau hyn wedi'u cadw'n ôl, fod Llywodraeth y DU o'r farn yn awr y dylid ceisio cytundeb ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).*

a) A fyddech cystal â rhannu â ni yr ohebiaeth a ddaeth i law ar 6 Chwefror 2024 gan Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol.

Mae eich llythyr yn tynnu sylw at farn barhaus Llywodraeth y DU bod cymalau 74 a 78 wedi'u cadw'n ôl. Fodd bynnag, rydych hefyd yn egluro mai Nodyn Canllaw Llywodraeth y DU ar Ddatganoli, **Deddfwriaeth Sylfaenol Seneddol a Chynulliad sy'n effeithio ar Gymru**, sy'n cynnwys gofyniad i geisio cydsyniad pan fo darpariaethau mewn Bil yn rhoi neu'n gosod swyddogaethau *wedi'u cadw'n ôl* ar awdurdod datganoledig yng Nghymru. Ymddengys bod hwn yn ofyniad gwahanol i gonfensiwn Sewel, sy'n cydnabod na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â Chymru o ran materion *datganoledig*. Mae hefyd yn wahanol i ofynion Rheolau Sefydlog y Senedd, yn benodol Rheolau Sefydlog 29.1 sy'n nodi bod yn rhaid i "[F]il perthnasol", at ddiben defnyddio Rheol Sefydlog 29, wneud darpariaeth at unrhyw ddiben "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd" (neu addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).

b) Byddem yn croesawu eich barn ar y gwahanol feini prawf a dulliau gweithredu y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu cymhwyso gan Reolau Sefydlog Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth asesu a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ddarpariaethau Bil.

Cwestiwn 2. Mae argymhelliad 2 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3 yn ailadrodd argymhelliad a wnaethom yn flaenorol yn ein hadroddiad cyntaf, y dylem gael asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 3 o'r Bil. Er ein bod yn cydnabod bod yr ymateb a ddarparwyd yn rhoi eglurhad ffeithiol o'r pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 3, nid


Senedd Cymru
Welsh Parliament

ydym yn ystyried ei fod yn darparu asesiad o'u goblygiadau datganoledig. A fyddech cystal â darparu manylion am unrhyw oblygiadau datganoledig o ran y pwerau gwneud rheoliadau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys yn Rhan 3 o'r Bil.

Cwestiwn 3. Mewn ymateb i argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, o ran eich "[p]ryderon yn ymwneud â'r polisi cyfansoddiadol" gyda darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR) yn y Bil, rydych yn datgan ichi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol ar 23 Ionawr 2024 yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau NUAR ar bwerau Gweinidogion Cymru.

a) A fyddech cystal â rhannu â ni yr ohebiaeth a anfonwyd ar 23 Ionawr 2024 at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol.

b) Yn ei llythyr ar 6 Chwefror 2024, a wnaeth y Gweinidog Gwladol roi sylw i bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch darpariaethau NUAR? Os na, a roddwyd sylw i'r pryderon mewn gohebiaeth ddilynol (h.y. y llythyr ar 1 Mawrth 2024 y cyfeirir ato yn yr ymatebion i argymhellion 8 a 10) neu a yw Llywodraeth Cymru yn dal i aros am ymateb ar y mater hwn?

Cwestiwn 4. Mewn ymateb i argymhelliad 8 ac argymhelliad 10 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, rydych yn cyfeirio at yr ohebiaeth a ddaeth i law gan y Gweinidog Gwladol ar 1 Mawrth 2024 mewn perthynas â Llywodraeth y DU yn gwrthod rhannu copi o'i hasesiad risg â Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl y Bil ar benderfyniad y DU ar ddigonolrwydd data'r UE, ac mewn perthynas ag ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r Comisiwn Ewropeaidd ar y Bil. A fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a ddaeth i law ar 1 Mawrth 2024 gyda ni.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julia Lopez AS
Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol

15 Mawrth 2024

Annwyl Julia

Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Yn ein cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mawrth 2024 gwnaethom drafod llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2024 gan y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru, lle mae'n ymateb i adroddiad fy Mhwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (adroddiad ar Femorandwm Rhif 3).

Mae'r llythyr yn codi nifer o faterion y byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o eglurder yn eu cylch. Byddai unrhyw fanylion y byddech yn gallu eu darparu yn ddefnyddiol iawn i'm Pwyllgor wrth inni ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil. O ystyried bod ein gwaith yn amser-gritigol ac yn gysylltiedig â thaith y Bil drwy Senedd y DU, byddem yn croesawu ymateb erbyn 25 Ebrill 2024.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

**Cwestiwn 1.** O ran cydsyniad deddfwriaethol, hyd yma rydym wedi bod â safbwyntiau gwrthgyferbyniol i Lywodraeth Cymru ynghylch a yw diben cymalau 74 a 78 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd) sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn ei lythyr atom ar 8 Mawrth 2024, cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym hefyd:

> *"Yn wir, ar 6 Chwefror ysgrifennodd Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am eu dadansoddiad eu hunain o ran datganoli ar y Rhan hon o'r Bil. Yn flaenorol, roeddent o'r farn bod darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil wedi'u cadw'n ôl o dan y mater a gedwir yn ôl ar gyfer gwasanaethau rhyngrwyd, ac felly nad oedd angen cydsyniad y Senedd. Roedd ei llythyr yn nodi y dylid ceisio cydsyniad dan Ganllawiau ar Ddatganoli Cymru wrth gyflwyno neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. Ychwanegodd, o ganlyniad, er bod Llywodraeth y DU yn credu bod y swyddogaethau hyn wedi'u cadw'n ôl, fod Llywodraeth y DU o'r farn yn awr y dylid ceisio cytundeb ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).*

**a)** Er mwyn ein helpu i ddeall, a fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a anfonwyd gennych at Lywodraeth Cymru ar 6 Chwefror 2024 gyda ni.

Yn ei lythyr, mae Prif Weinidog Cymru yn tynnu sylw at eich barn barhaus bod cymalau 74 a 78 wedi'u cadw'n ôl. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog hefyd yn egluro mai Nodyn Canllaw Llywodraeth y DU ar Ddatganoli, Deddfwriaeth Sylfaenol Seneddol a Chynulliad sy'n effeithio ar Gymru, sy'n cynnwys gofyniad i geisio cydsyniad pan fo darpariaethau mewn Bil yn rhoi neu'n gosod swyddogaethau *wedi'u cadw'n ôl* ar awdurdod datganoledig yng Nghymru. Ymddengys bod hwn yn ofyniad gwahanol i gonfensiwn Sewel, sy'n cydnabod na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â Chymru o ran materion *datganoledig*. Mae hefyd yn wahanol i ofynion Rheolau Sefydlog y Senedd, yn benodol Rheolau Sefydlog 29.1 sy'n nodi bod yn rhaid i "[F]il perthnasol", at ddiben defnyddio Rheol Sefydlog 29, wneud darpariaeth at unrhyw ddiben "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd" (neu addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).

**b)** Byddem yn croesawu eich barn ar y gwahanol feini prawf a dulliau gweithredu y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu cymhwyso gan Reolau Sefydlog Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth asesu a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ddarpariaethau Bil.

**Cwestiwn 2.** Mewn ymateb i argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, o ran "[p]ryderon [Llywodraeth Cymru] yn ymwneud â'r polisi cyfansoddiadol" gyda darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR) yn y Bil, mae'r Prif Weinidog yn datgan yr

ysgrifennodd atoch ar 23 Ionawr 2024 yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau NUAR ar bwerau Gweinidogion Cymru. A ydych wedi ymateb i bryderon Llywodraeth Cymru ac, os felly, a fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth â ni? Os na, pryd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn ymateb i Lywodraeth Cymru?

Cwestiwn 3. Mewn ymateb i argymhelliad 8 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, dywedodd y Prif Weinidog wrthym nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael copi o asesiad risg Llywodraeth y DU ar effaith bosibl y Bil ar benderfyniad y DU ar ddigonolrwydd data'r UE a'ch bod wedi gwrthod ei rannu oherwydd ei bod yn bwysig i swyddogion Llywodraeth y DU allu cynnal trafodaethau didwyll yn ystod y broses o lunio polisïau. Byddwch yn ymwybodol y gallai fod goblygiadau i Gymru pe bai'r penderfyniad digonolrwydd yn cael ei golli. A fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a anfonwyd gennych at Brif Weinidog Cymru ar 1 Mawrth 2024 gyda ni a/neu egluro ymhellach eich penderfyniad i beidio â rhannu eich asesiad risg â Llywodraeth Cymru.

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon